GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures

# Eich Newyddion Iechyd Lleol

Croeso i'r fersiwn diweddaraf o 'Eich Newyddion Iechyd Lleol'. Dros y misoedd diwethaf, mae pandemig COVID-19 wedi amharu ar y ffordd y bu'n rhaid inni weithio, ond rydym yn falch iawn o fod yn ôl â'r newyddion a'r datblygiadau diweddaraf i chi o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## Penblwydd Hapus GIG!!




Ar ddydd Sul 5 Gorffennaf, roedd pen-blwydd y GIG yn 72 oed!
I nodi'r pen-blwydd, roedden ni am ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r GIG yn ystod pandemig coronafeirws drwy ddod ynghyd i ganmol ymroddiad, dewrder ac aberth cynifer o bobl, a chynhaliwyd clap arbennig ar stepen y drws am 5pm ledled y Deyrnas Unedig.
Roedd ein staff am ddiolch i CHI am ddiolch i ni ac am eich cefnogaeth barhaus yn ystod pandemig COVID-19 drwy ffilmio neges fideo fer y gallwch ei gweld drwy ddilyn y ddolen isod:
https://abuhb.nhs.wales/news/news/the-health-boards-thank-you-to-you/




## Cyfarfod Byw o'r Bwrdd

Ar ddydd Mercher 15 Gorffennaf 2020, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd gyfarfod, a gafodd ei ffrydio'n fyw ar YouTube, fel rhan o'n trefniadau yn ystod y pandemig. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw fel sefydliad.
Rhoddodd y Bwrdd eu cefnogaeth i'n Cynllun Gweithredol Chwarter Dau a chafwyd trafodaethau ynglŷn â'n hymateb parhaus i'r Pandemig, y ffyrdd rydyn ni'n ailgychwyn ein gwasanaethau a'n cynlluniau wrth fynd i gyfnod y gaeaf.

Trafododd y Bwrdd hefyd y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran cludo cleifion rhwng safleoedd, sydd bob amser yn ystyriaeth hanfodol yn y gwaith o symud cleifion yn ddiogel ac yn brydlon rhwng lleoliadau gofal, ond mae'n flaenoriaeth arbennig i'r Bwrdd Iechyd wrth i'n system a'n model newid yn sgil agoriad arfaethedig Ysbyty Athrofaol y Grange. Cefnogodd y Bwrdd y cynigion sy'n cael eu gwneud a bwrw ymlaen â'r gwaith, yn enwedig o ran ein gwaith gyda'n partneriaid yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ynni newydd hefyd a chafwyd trafodaethau ar ein sefyllfa ariannol, perfformiad ein gwasanaethau, a phroffil presennol ein risgiau ymhob rhan o'r sefydliad a'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Pwyllgorau ein Bwrdd Iechyd.




## Ailgychwyn ein gwasanaethau

Mae pandemig Covid-19 wedi amharu'n sylweddol ar wasanaethau'r GIG. Rydyn ni wedi parhau i ddarparu gofal fel arfer i gleifion sydd angen triniaethau brys (trwy Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, gwasanaethau canser ac ati), er bod llawer o apwyntiadau a thriniaethau cyffredin wedi'u gohirio. Wrth i ni weld llai o achosion Covid-19 yn ein hysbytai, byddwn yn ailgychwyn llawer o'r gwasanaethau cyffredin sydd wedi'u gohirio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi'r cyngor a'r wybodaeth ganlynol ar y wefan:

***"Os bydd gofyn i chi fynd i un o'n safleoedd ysbyty neu glinigau cymunedol, fe welwch fod y ffordd y cânt eu rhedeg bellach wedi'i newid ychydig i gynnwys Rheoliadau ymbellhau cymdeithasol. Os oes gennych gwestiwn penodol yn ymwneud â'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu ffoniwch y rhif ar eich llythyr apwyntiad. I wneud ymholiad neu newid dyddiad apwyntiad, ffoniwch ein Canolfan Apwyntiadau ar 01495 765055. Sylwer - os ydych yn cael Llawdriniaeth Ddewisol yn un o'n Hysbytai, byddwch yn cael prawf Covid-19 ac yna gofynnir i chi hunanynysu cyn i chi gael eich derbyn i'r Ysbyty."***

https://abuhb.nhs.wales/restarting-services/restarting-services/

## Ymweliad gan Weinidogion Cymru



Ar ddydd Mercher 22 Gorffennaf 2020 cafodd staff Ysbyty Brenhinol Gwent gyfle i gyfarfod â Vaughan Gething AS, y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, wrth iddo ddiolch iddynt am eu gwaith anhygoel yn ystod pandemig COVID-19. Roedd Jayne Bryant AS, aelod y Senedd dros Orllewin Casnewydd, gyda'r Gweinidog. Siaradon nhw ag amryw o aelodau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, staff domestig, porthorion, myfyrwyr nyrsio a staff gweithredol am y rolau y maen nhw wedi eu cyflawni hyd yn hyn yn y frwydr yn erbyn Coronafeirws.

Eglurodd llawer o'r staff eu bod wedi trawsnewid eu mannau gwaith arferol oherwydd COVID-19, a disgrifiwyd yr heriau y maen nhw wedi eu goresgyn gyda'i gilydd.

## Canllawiau Diwygiedig ar gyfer Ymweld ag Ysbytai

Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer ymweliadau ag ysbytai yng Nghymru. O ganlyniad, newidiodd y Bwrdd Iechyd rai o'r cyfyngiadau a oedd yn ymwneud ag ymweld, ond pwysleisiodd fod yn rhaid cadw rheolau llym ar waith i ddiogelu staff, cleifion ac ymwelwyr.

Rhaid i ni barhau i gyfyngu ar nifer yr ymwelwyr mewn lleoliadau gofal iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at ganllawiau ymbellhau cymdeithasol. Bydd ymweld ar ddisgresiwn y nyrs sy'n gyfrifol am ward neu adran, a rhoddir caniatâd yn seiliedig ar fuddiannau gorau'r claf a/neu les yr ymwelydd.

Yn anffodus, nid yw'r newidiadau hyn yn golygu ein bod yn dychwelyd at 'fusnes fel arfer' o ran ymweld. Sylweddolwn yr effaith gadarnhaol y gall ymweld ei chael ar gleifion a'u teuluoedd, ond bydd cyfyngiadau'n parhau ar waith o ran ymweld i sicrhau ein bod

yn cadw ein cleifion, ein staff a'n hymwelwyr mor ddiogel â phosibl yn ystod y cyfnod heriol hwn.
Gellir trefnu ymweliad, gyda chytundeb Prif Nyrs Ward/Nyrs Cyfrifol cyn belled â; nad oes gan ymwelwyr unrhyw symptomau COVID-19 neu'n gwella o COVID-19, ac nad ydyn nhw, hyd eithaf eu gwybod, wedi bod mewn cysylltiad â rhywun â COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf. Fel arfer, bydd un ymwelydd i bob claf yn cael ei ganiatáu, gyda rhai eithriadau, megis gofal diwedd oes.
Mae'r canllawiau hefyd yn amlinellu newidiadau i wasanaethau mamolaeth. Erbyn hyn gall partner neu aelod enwebedig arall fynd gyda menyw pan fydd yn mynd i'r ysbyty am y rhesymau canlynol:

- Sgan Dyddio Beichiogrwydd 12 wythnos
- Clinig Beichiogrwydd Cynnar
- Sgan Anomaledd
- Presenoldeb yn Adran Feddygaeth y Ffetws

Cliciwch ar y ddolen isod i gael rhagor o wybodaeth:
https://gov.wales/hospital-visiting-during-coronavirus-outbreak-guidance-effective-20-july-2020

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Mae CAMHS wedi parhau i fod yn gwbl weithredol yn ystod y pandemig ac wedi defnyddio cyfathrebu rhithwir, teleiechyd a'r cyfryngau cymdeithasol i gynnig cyngor, gwybodaeth ac ymyriadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bu ein clinigwyr yn anhygoel o brysur, yn gwneud dros 600 o alwadau lles, a delio â cheisiadau am gymorth ac asesiadau ers mis Mawrth 2020.

Roedd llawer o bobl ifanc a rhieni (yn enwedig rhieni sy'n gweithio) yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn a'r gallu i gael mynediad at wasanaethau ar ôl gwaith gyda'r nos/yn eu hamser eu hunain ac ar eu cyflymder eu hunain. Roedd y gwasanaeth yn gallu cadw cysylltiad yn rhwydd a gyda mwy o gleifion nag a oedd yn bosibl yn flaenorol. Roedd atgyfeiriadau newydd yn cael cyswllt cychwynnol, naill ai'r un diwrnod neu o fewn ychydig ddyddiau i'r atgyfeirio. Dosbarthodd clinigwyr ynghyd â chydweithwyr seicoleg plant ddeunyddiau arfer da i gefnogi teuluoedd a phobl ifanc. Datblygwyd adnoddau i helpu clinigwyr i barhau i ddarparu gofal yn canolbwyntio ar y claf.

Ailgychwynnodd apwyntiadau wyneb yn wyneb o 29 Mehefin 2020. Mae gwasanaeth CAMHS yn dychwelyd at lefel y gweithgarwch yr oedden ni'n ei reoli cyn y pandemig ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio'n galed drwy ymgynghoriadau rhithwir a theleiechyd gan gynnwys mynediad Mynychu Unrhyw Le er mwyn sicrhau nad oes angen i gleifion ddod i'r ysbyty oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Rydyn ni hefyd wedi trefnu holiaduron profiad cleifion i gasglu barn defnyddwyr gwasanaethau. Roedd adborth yn cynnwys:

***' Diolch yn fawr am eich ymateb cyflym ar ôl fy ngalwad ffôn heddiw gyda phryderon am fy mab. Roedd y gwasanaeth a gefais yn ardderchog, gwrandawyd ar fy mhryderon ynglŷn ag iechyd meddwl fy mab a rhoddwyd camau priodol ar waith ac mae ymgynghoriad dilynol yn yr arfaeth - Diolch! '***

## Rhaglen adsefydlu COVID




Ar ddydd Mawrth 7 Gorffennaf, daeth y South Wales Argus a BBC Cymru ar ymweliad â'r rhaglen adsefydlu COVID yn Felodrom Casnewydd. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda nifer o gleifion ac fe siaradon nhw am sut mae COVID wedi effeithio arnyn nhw a sut mae'r rhaglen adsefydlu yn helpu gyda'u hadferiad.

Lewis Barton, 30 oed o Gasnewydd, oedd un o'r cleifion ieuengaf yn ein huned gofal dwys gyda COVID-19. Ar ôl pedair wythnos bron yn yr ysbyty, mae Lewis nawr yn mynychu rhaglen adsefydlu COVID ac yn ei chael yn rhan wirioneddol werthfawr yn ei adferiad.

I gael gwybod mwy am raglen adsefydlu 'COVID-19' gyntaf Cymru, ewch i: https://abuhb.nhs.wales/news/news/wales-first-post-covid-19-rehabilitation-programme/

## Profi, Olrhain, Diogelu



Mae gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Gwent bellach wedi bod ar waith ers 1 Mehefin 2020. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â phum awdurdod lleol Gwent i ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei staffio gan gyfuniad o staff y Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol, gan gynnwys swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. Mae'r system Profi, Olrhain, Diogelu yn bwysig i'n helpu i fyw a gweithio ochr yn ochr â'r firws tra bo ymchwil yn parhau i chwilio am driniaethau mwy effeithiol a brechlyn.

Gall unrhyw un sy'n arddangos symptomau coronafeirws archebu prawf ar-lein erbyn hyn https://gov.wales/apply-coronavirus-test neu drwy ffonio 119.

Rydyn ni'n gofyn i bawb ein helpu i wneud profi ac olrhain cysylltiadau yn llwyddiant drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith ffrindiau, teulu, cleifion a chydweithwyr. Gallwch chi wneud hyn trwy wneud y canlynol:

- Dilyn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a rhannwch wybodaeth swyddogol am Profi, Olrhain, Diogelu
- Cyfeirio pobl at dudalennau gwe Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth a chwestiynau cyffredin: http://gov.wales/test-trace-protect-coronavirus
- I'r rhai nad oes ganddyn nhw fynediad at y rhyngrwyd neu sydd angen gwybodaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen neu ieithoedd eraill, mae gennym adnoddau ar gael. E-bostiwch ABB. COVIDCommsHub@wales.nhs.uk i gael rhagor o wybodaeth

**If you have any questions or would like to contact us please email**
**abhb.enquiries@wales.nhs.uk**

Aneurin Bevan University Health Board

@AneurinBevanUHB